# Portread y Mis



*T.W. THOMAS, M.B.E., Y.H. (yr ail o'r dde yn y rhes flaen) gyda gweinidog a diaconiaid Bethlehem.*

Pleser digymysg, ar sawl cyfrif, oedd cael troi i mewn i "Greenhurst", Pentyrch, ar fore glawog, diflas o Dachwedd. Mae'r tŷ ei hun yn llawn hyd yr ymylon o'n hetifeddiaeth fel cenedl, yn ddodrefn, a llyfrau a lluniau, ac yno i'm croesawu'n gynnes roedd un o hynafgwyr hynawsaf ein pentre ni, a llywydd anrhydeddus Clwb y Dwrlyn. Nid fod T.W. Thomas yn brin o anrhydeddau - gwelodd Cymru a Phrydain yn dda i anrhydeddu'r gwron hwn, ac ymhyfrydwn ninnau yn y fraint o'i gael yn batriarch ein cymdeithas ni.

Brodor o Waelod y Garth yw T.W. Thomas; fe'i ganed yno ar y deunawfed o Orffennaf, 1901, yn nhŷ canol "rhestr" o dai a godwyd gan ei dadcu. Arferai ei dadcu halio mwyn o Bentyrch i Felin Gruffydd, ac roedd yn berchen deugain o "fiwlod" i gyflawni'r orchwyl honno. Bu'r "miwlod" yn destun bargeinio caled un mis Awst, rhwng tadcu a mamgu Mr Thomas a'r "Egyptian Doctor" a arferai deithio'r ffeiriau yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Awst y chweched ar hugain oedd hi, a'r "Doctor" ar ei ffordd o Ffair Caerffili i Ffair y Mynydd rhwng Penybont a Phencoed. Gwelodd y "miwlod" yn pori y tu allan i'r bwthyn, a cheisiodd fargeinio am un ohonyn nhw, i'w gario ar ei daith. Doedd y ffaith na allai'r "Doctor" air o Gymraeg, ac na feddai tadcu a mamgu T.W. Thomas yr un gair o Saesneg rhyngddynt, fawr o help i daro bargen, a'r diwedd fu i'r "Doctor" gael un o'r "miwlod" am y pris anghyffredin o rysait plaster cornwydydd!

Yn ôl pob golwg, bu'r rysait yn dipyn mwy buddiol na chweugain, (gwerth y mul), i'r teulu a phobl yr ardal. Pan ymfudodd dynion o'r cylch i weithio yn Scranton, Pennsylvania yn chwedegau'r ganrif ddiwetha, arferent anfon adra am blaster cornwydydd o'r rysait hwn.

Codwyd T.W. Thomas yng Ngwaelod y Garth, ac yno yr aeth i'r ysgol. Does ganddo fawr i'w ddweud wrth yr ysgol y dyddiau hynny. Roedd fel ynys ormesol o Seisnigrwydd ynghanol môr Cymreigrwydd naturiol y pentre. Yr aelwydydd a'r capel oedd yn cynnal 'Y Pethe'. Roedd wythnos capel yn un brysur iawn, rhwng oedfaon y Sul, Cwrdd Gweddi, Y Gobeithlu, Y Gyfeillach a'r 'Penny Reading'.

Mae enwau a dyddiadau holl weinidogion y capel ar gof Mr Thomas, o agor y capel gwreiddiol ym 1832 hyd heddiw. Daw golau i'w wyneb wrth son am y Parchedig R.G. Berry, a ddaeth yn weinidog i Bethlehem ym 1897. Ef fedyddiodd T.W. Thomas, a'i dderbyn yn gyflawn aelod. Ac wrth gwrs, fe dystia Mr Thomas, fel sawl un arall, mai'r Parchedig R.G. Berry "roddodd Gwaelod y Garth ar fap y byd!"

Bu cyfraniad T.W. Thomas i Gapel Bethlehem yn un clodwiw iawn dros y blynyddoedd. Bu'n athro Ysgol Sul, yn pregethu yno ac yng nghapeli eraill y cylch, fel y Bronllwyn a Thaihirion yn ystod y rhyfel, ac mae'n ddiacon ym Methlehem ers dros hanner canrif.

Gadawodd yr ysgol yn dair ar ddeg oed, i ddilyn cwrs busnes yn "Bloggs College", yng Nghaerdydd, a chwilio am waith ymhen y flwyddyn. Dechreuodd ar ei yrfa fel "office boy" gyda Cory Bros, yng Nghaerdydd, yn ennill 3/6 yr wythnos. Arferai gerdded bob bore o'r Gwaelod i Ffynnon Tâf i ddal y trên chwarter wedi saith, a theithio adre ar y drên chwech gyda'r nos.

Bu gyda'r Brodyr Cory am flwyddyn cyn symud i weithio i T.H. Griffiths a'i Gwmni yn y Gyfnewidfa Lo, am gyflog dipyn mwy sylweddol o 30/- yr wythnos. Yna, wedi symud at gwmni Spillers, fel trafaeliwr, dringodd i fod yn Reolwr Gwerthiant Rhanbarthol De Cymru a Gorllewin Lloegr.

Gallech yn hawdd dderbyn fod swydd gyfrifol ym myd busnes, bod yn Ynad Heddwch, yn gadeirydd y Fainc, ac yn aelod prysur ymroddgar o gapel Bethlehem yn fwy na digon i lenwi amser unrhyw un. Roedd hefyd yn aelod o Gyngor Cymru o'r BBC, yn aelod o Lys Coleg y Brifysgol Caerdydd a Llys yr Amgueddfa ac yn swyddog o Urdd Sant Ioan. Ac eto, llwyddodd T.W. Thomas i ddod o hyd i'r amser a'r egni, ar ben hyn i gyd, i gymryd diddordeb angerddol ac ymarferol yn ein Eisteddfod Genedlaethol. Yn wir, mae'n debyg mai ef yw'r unig un all honni iddo fod yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod ddwywaith, yng Nghaerffili ym 1950 a Chaerdydd ym 1960. Mae'n parhau i fod yn Drysorydd yr Orsedd.

Bu'n gyd-drysorydd yr Eisteddfod gyda Brynallt, ac wedi marw Brynallt, yn Drysorydd yr Eisteddfod hyd ei ymddeoliad, ddechrau'r 80au. Fe'i hanrhydeddwyd am ei lafur a'i wasanaeth di-flino drwy ei ethol yn gymrawd yr Eisteddfod yn y 70au.

Urddwyd T.W. Thomas yn aelod o'r Orsedd ym 1930, gan Pedrog. Ei enw yng ngorsedd yw "Ab Eos", a hynny ar gais Pedrog, ffrind mynwesol i dad T.W. Thomas, sef "Eos y Garth", a ddaeth yn drydydd yn yr unawd tenor yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Pontypridd, ym 1893.

Fe'i urddwyd yn MBE ym 1943.

Soniais eisoes fod cartref T.W. Thomas ac Edwina ei wraig yn gyforiog o hanes. Y peth cyntaf a welwch wrth gerdded i mewn i'r cyntedd yw cloc mawr wyneb pres, a wnaed gan John Philip, Pentyrch, hen-hen dadcu Mr Thomas. Yn wir, mae'r ardal yn frith o'i gysylltiadau teuluol. Bu ei deulu'n ffermio erwau'r broydd o'n cwmpas, yn Nhresimwn, Llanbad(Llanbedr y Fro) a Phentyrch. Mae T W Thomas ei hun wedi llafurio oes yn enw diwylliant Cymru, heb anghofio bugeilio'i filltir sgwar ei hun, a braf yw gwybod ei fod yn falch ein bod ni, y "bobl ddwad" o rannau eraill o Gymru, wedi dewis cartrefu yn ei gornel ef o'r wlad.